

Prentisiwyd ef i un o farsïandwyr y Staple, 1608. Yn ddiweddarach cafodd nawdd **John Williams**, arglwydd-geidwad y sêl fawr, a phriododd â Grace, nith hwnnw, yn 1624. Fel ei frawd hyn, ni chymerodd unrhyw ran yn y Rhyfel Cartref. Serch iddo ofni colli ei diroedd yn 1656 ('sequestration') ymddengys iddo ddianc rhag y golled honno; yn 1653, pan oedd yn siryf Sir Gaernarfon, efe a gyhoeddodd Cromwell yn ddiffynnwr. Bu'n siryf sir Ddinbych yn 1656. Cymerai ddiddordeb mewn alcemi a meteloedd, a bu'n gohebu â **John Davies o Fallwyd**. Bu farw 15 Awst 1660.

RICHARD WYNN (c. 1625 - 1674)

Mab Syr Owen Wynn oedd y 4ydd barwnig. Bu'n siryf Sir Gaernarfon, 1657-8, ac yn aelod seneddol y sir, 1647-53 a 1661-75; bu iddo hefyd gysylltiad â llywodraeth leol bwrdeisdref Dinbych. Yn 1659 ymddengys fod iddo ran a chyfran yn y gwrthryfel brenhinol a drefnwyd gan Syr George Booth a **Syr Thomas Myddelton** - yr oedd wedi priodi â Sarah, ferch **Syr Thomas**, yn 1654 - a bu yn garcharor yng Nghaernarfon. Pan fu farw, 30 Hydref 1674, aeth ei stad i'w ferch, MARY WYNN (1661 - 1689), a briododd, yn 1678, â Robert Bertie, barwn Willoughby de Eresby, ardalydd Lindsey a dug Ancaster wedi hynny, yn rheulu yr hwn y parhaodd Gwydir hyd 1895. Aeth y farwnigiaeth i John Wynn, Wattsay (1628 - 1719), unig fab Henry Wynn, degfed mab y barwnig cyntaf, a phan bu John Wynn farw daeth i ben.

Awdur

Yr Athro Glyn Roberts, (1904 - 1962)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography
Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515â€“1690, in the National Library of Wales and elsewhere
Clenennau Letters and Papers in the Brogyntyn Collection (Aberystwyth 1947), i, Introduction
Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family* (1927)
W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895*(Brecknock 1895)
E. Breese, *Kalendars of Gwynedd* â€¦ (1873)
Caroline A. J. Skeel, *Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515-1690, in the National Library of Wales, and elsewhere. A Review* *Y Cymmrodor*, Cyf. xxxviii, tt.79-85
Marjorie Foljambe Hall, *The Wynn Papers (1515-1690). A Resume and an Appreciation*, *Y Cymmrodor*, Cyf. xxxviii, tt.86-135
The Welsh Review, i, 187-91
Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, 1939, 37-46
J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 280-1
E. G. Jones, 'The Caernarvonshire Squires, 1558-1625 (traethawd M.A., anghyhoedd)

Darllen Pellach

John Gwynfor Jones, *Patrymau diwylliant a moes yn rheulu'r Wynniaid o Wedir* (Caernarfon 1989)
John Gwynfor Jones, *The Wynn Estate of Gwydir: aspects of its growth and development c. 1500-1580* *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. 22, rh. 2 (Gaeaf 1981), tt.141-169

Delweddau

Philip Yorke, '**Sir John Wynne Bart,**' *The Royal Tribes of Wales*

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q19899965**

Dyddiad cyhoeddi: 1953
Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

- PDF
- Argraffu
- Cyfeirnodï

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Roberts, G., (1953). WYNN (TEULU), Gwydir, Sir Gaernarfon. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WYNN-GWY-1300>



Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government